Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

2024 Adroddiad Blynyddol

## Datganiad y Prif Swyddog Ariannol, Jonathan Chitty

### Perfformiad Ariannol

Mae'r Grŵp yn adrodd trosiant gwerth £43.2m (£41.3m yn 2023) ar gyfer y flwyddyn, sy'n dwf o 4.6%. Dros y tair blynedd diwethaf mae hyn yn adlewyrchu twf cyfartalog o 20% ar gyfer y Grŵp oherwydd cryfder parhaus mewn refeniw morgludiant (er iddo ostwng ychydig yn 2024), ehangu ein gweithgareddau lletygarwch, ac effeithiau chwyddiant.

Mae'r twf cyffredinol mewn refeniw a gyflawnwyd gan y Grŵp yn 2024 yn seiliedig ar incwm o'n gweithgareddau amrywiol; roedd rhenti a oedd yn deillio o'n portffolio eiddo masnachol wedi codi 18.2%, a gwerthiant a oedd yn deillio o'n lleoliadau lletygarwch wedi cynyddu 97.7%, gan ddyblu bron iawn. Y cymysgedd cyffredinol rhwng taliadau llongau craidd a pheilotiaeth: gweithgareddau amrywiol nad ydynt yn graidd oedd 55:45 ar gyfer 2024, o'i gymharu â 61:39 yn 2023, sy'n adlewyrchu llwyddiant y strategaeth dros y blynyddoedd diwethaf i arallgyfeirio ein gweithgareddau.

Hefyd, roedd proffidioldeb yn uwch o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol; llwyddodd y Grŵp i wneud elw gweithredol o £6.8m (2023 - £4.1m). Roedd ein portffolio eiddo buddsoddi wedi gwneud colled arall o £0.7m ar sail ailbrisio yn y flwyddyn (2023 - £1.2m) er gwaethaf y ffaith bod yr incwm rhent cyffredinol yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y rheswm am y golled hon oedd tuedd ar i lawr amodau cyffredinol y farchnad eiddo masnachol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Elw cyn treth y Grŵp oedd £4.1m (2023 - £1.3m) ar ôl cyfrif am y golled oherwydd ailbrisio a chostau ariannol ar gyfer y flwyddyn. Elw net ar gyfer y flwyddyn yw £1.9m ar ôl taliadau treth o £2.2m. Mae hyn yn cymharu â cholled net o £1.0m yn 2023 ar ôl taliadau treth o £2.3m.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n helaeth yn ein Grŵp, ym musnes craidd y porthladd ac yn ein strategaeth arallgyfeirio. Cyfanswm y buddsoddiad mewn asedau sefydlog oedd £15.3m (2023 - £29.0m) yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod ein gwariant cyfalaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf bron yn £45m. Mae'r buddsoddiadau a wnaed yn 2024 yn cynnwys ailwampio'r cyfleuster cymorth mordwyo allweddol a elwir yn Mid Channel Rock, gwaith mawr i uwchraddio'r efelychydd peilotiaeth a mordwyo, a pharhau i wneud gwaith ar y cwch peilot newydd sydd i'w gyflwyno yn 2025. Mae'r buddsoddiadau hyn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod gan ein timau peilota o'r radd flaenaf a'n criw cychod ategol yr asedau gorau i'w helpu yn eu rolau heriol.

Rydym yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i ychwanegu at ein ffrydiau incwm amrywiol, ac ar ôl llwyddiant ein gwesty newydd yng Nglannau Aberdaugleddau, nodwyd gwesty a bwyty sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y sir a fyddai'n helpu ein gweithredwr trydydd parti dibynadwy, y Celtic Collection, i fanteisio i'r eithaf ar synergedd. Cwblhawyd y caffaeliad ddiwedd mis Mai 2024, a rhaid talu cyfanswm o £14.6m, gan gynnwys costau, ar ôl cwblhau'r gwaith. Roedd perfformiad y lleoliadau newydd yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer gweddill 2024.

**Cyllido**

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Grŵp ddyled net o £15.3m (arian parod net o £5.1m yn 2023). Dyma'r tro cyntaf i'r Porthladd adrodd sefyllfa ddyled net, sy'n cynrychioli'r penderfyniad tactegol i gefnogi ein strategaeth ar gyfer twf. Mae gan y Porthladd gyfleuster cyfun o hyd at £40m sydd ar gael ar draws sawl mecanwaith cyllido sydd wedi'u hymrwymo tan 2027.

**Rhagolwg**

Mae'r marchnadoedd ynni byd-eang sy'n bennaf gyfrifol am bennu ein refeniw ar gyfer gweithgarwch craidd y gwasanaethau peilota yn gymharol sefydlog ond maen nhw'n gallu bod yn anwadal ar adegau. Rydym yn rhagweld lefel debyg o refeniw o'r gweithgarwch hwn yn 2025 ac yn disgwyl y bydd ein ffrydiau incwm amrywiol yn darparu lefel debyg o incwm i ni hefyd. Er bod yr amgylchedd geowleidyddol yn parhau i fod yn ddynamig, mae gennym warantau refeniw sylfaenol ar waith sy'n rhoi rhywfaint o wytnwch ariannol i ni os yw'r galw byd-eang neu ranbarthol am forgludiant yn gostwng yn sylweddol. Mantais arall sydd gennym yw ffrydiau refeniw amrywiol cadarn a oedd yn gyfrifol am bron i hanner cyfanswm trosiant y Grŵp yn 2024.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi ym musnes craidd y porthladd ynghyd â gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio ein portffolios eiddo a lletygarwch. Mae pawb yn llawn cyffro wrth feddwl am groesawu ein llong beilot newydd yn 2025.

Mae digon o hyblygrwydd yn y cyfleusterau ariannu rydym wedi ymrwymo iddynt i gefnogi'r buddsoddiadau arfaethedig os nad yw'r llif arian gweithredol sy'n deillio o incwm craidd ac amrywiol yn ddigonol yn y tymor byr.

| | 2024 | | 2023 |
|---|---|---|---|
| | £'m | £'m cynnydd/ gostyngiad | £'m |
| Trosiant | 43.2 | 1.9 | 41.3 |
| EBITDA* (Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, ac amorteiddio) | 11.0 | (1.4) | 12.4 |
| Elw Gweithredol | 6.8 | 2.7 | 4.1 |
| Lif arian parod o weithgareddau gweithredu | 5.8 | 2.7 | 3.1 |
| Cyfaint Cargo (tunelli) | 32.8m** | (1.9) | 34.7m |
| Llongau sy'n destun taliadau (tunelledd gros) | 47.9m | (10.8m) | 58.7m |
| Symudiadau llongau sy'n destun taliadau (nifer): | 1,893 | (16) | 1,909 |

*Mae EBITDA yn cael ei ailddatgan yn 2023 fel ffigur cyn dibrisiant, amorteiddiad a dirywiad a/neu ailbrisio asedau.

** Rhif dros dro ar gyfer 2024 (disgwylir y ffigur terfynol yn Haf 2025).